Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Datganiad Prosesu Teg

Beth sy'n digwydd i wybodaeth a gedwir amdanoch chi? Eich hawliau a'n rhwymedigaethau i chi.

## Sut Rydym yn Defnyddio Data Personol

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) yn cael, yn dal, yn defnyddio ac yn datgelu gwybodaeth am bobl (eu data personol), y camau a gymerwn i sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu, a hefyd yn disgrifio'r hawliau sydd gan unigolion o ran eu data personol a drafodir gan BCBC.

Mae defnyddio a datgelu data personol yn cael ei reoli gan ddeddfwriaeth Diogelu Data. Fel y cyfryw mae'n ofynnol i BCBC sicrhau ei fod yn trin pob data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Mae BCBC yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif ac yn cymryd gofal mawr i sicrhau bod data personol yn cael ei drin yn briodol er mwyn sicrhau a chynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion yn y Cyngor.

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i BCBC fod â sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data personol yn dibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir.

## 1. Pam ydym ni'n trin data personol?

Mae BCBC yn prosesu gwybodaeth bersonol i'w alluogi i ddarparu ystod o wasanaethau'r llywodraeth i bobl a busnesau lleol sy'n cynnwys:

- Cynnal ein cyfrifon a'n cofnodion ein hunain
- Cefnogi a rheoli ein gweithwyr
- Hyrwyddo'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu
- Marchnata ein twristiaeth leol
- cynnal ymgyrchoedd iechyd ac ymwybyddiaeth y cyhoedd
- rheoli ein heiddo
- darparu gwasanaethau hamdden a diwylliannol
- darparu addysg
- cynnal arolygon
- gweinyddu asesu a chasglu trethi a refeniw arall gan gynnwys budd-daliadau
- a grantiau
- trwyddedu a gweithgareddau rheoleiddio
- mentrau twyll lleol
- darparu gwasanaethau cymdeithasol
- atal trosedd a throseddwyr a erlynir gan gynnwys defnyddio TCC (CCTV)
- gweinyddiaeth gorfforaethol a'r holl weithgareddau y mae'n ofynnol i ni eu
- cyflawni fel rheolwr data ac awdurdod cyhoeddus
- ymgymryd ag ymchwil
- darparu'r holl wasanaethau masnachol gan gynnwys gweinyddu a gorfodi
- rheoliadau parcio a chyfyngiadau
- darparu pob gweithgaredd anfasnachol gan gynnwys casgliadau sbwriel o
- eiddo preswyl,

- cefnogaeth ariannol fewnol a swyddogaethau corfforaethol
- rheoli cofnodion archif am resymau hanesyddol ac ymchwil
- cydweddu data o dan fentrau twyll lleol a chenedlaethol
- Recriwtio a dewis gweithwyr newydd
- Ymgysylltu â gweithwyr asiantaeth
- Prosesu gwiriadau gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

## 2. Pa fath /ddosbarthiadau o ddata personol yr ydym yn eu trin?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod gall BCBC gael, defnyddio a datgelu data personol gan gynnwys y canlynol:

- Manylion personol - enw, cyfeiriad, oedran, rhyw
- Manylion teuluol
- Ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol
- Nwyddau a gwasanaethau
- Manylion ariannol
- Manylion cyflogaeth ac addysg
- Anghenion tai
- Delweddau gweledol, ymddangosiad personol ac ymddygiad
- Trwyddedau neu drwyddedau a gedwir
- Cofnodion myfyrwyr a disgyblion
- Gweithgareddau busnes
- Gwybodaeth mewn ffeiliau achos
- Manylion iechyd corfforol neu iechyd meddwl
- Tarddiad hiliol neu ethnig
- Gwybodaeth am anabledd
- Iaith a ffafrir
- Aelodaeth undeb llafur
- Cysylltiad gwleidyddol
- Barn wleidyddol
- Troseddau (gan gynnwys troseddau honedig)
- Credoau crefyddol neu eraill o natur debyg
- Achosion troseddol, deilliannau a dedfrydau.

Bydd BCBC ond yn defnyddio data personol priodol sy'n angenrheidiol i gyflawni diben neu ddibenion penodol. Gallai data personol fod yn wybodaeth a gedwir ar gyfrifiadur, mewn cofnod papur hy ffeil, fel delweddau, ond gall hefyd gynnwys mathau eraill o wybodaeth a gedwir yn electronig ee delweddau TCC (CCTV).

## 3. Am bwy y mae gwybodaeth yn cael ei phrosesu

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod gall BCBC gael, defnyddio a datgelu data personol am y canlynol:

- Cwsmeriaid
- Cyflenwyr
- Staff, pobl sydd wedi'u contractio i ddarparu gwasanaeth
- Hawlwyr
- Achwynwyr, ymholwyr neu eu cynrychiolwy
- Cynghorwyr ac ymgynghorwyr proffesiynol
- Myfyrwyr a disgyblion
- Gofalwyr neu gynrychiolwyr
- Landlordiaid
- Derbynwyr budd-daliadau
- Tystion
- Troseddwyr a throeddwyr a amheuir
- Deiliaid trwyddedau a chaniatâd
- Masnachwyr ac eraill sy’n destun archwiliad
- Pobl sy’n cael eu dal gan ddelweddau TCC (CCTV)
- Cynrychiolwyr sefydliadau eraill
- Ymgeiswyr gwaith

Bydd BCBC ond yn defnyddio data personol priodol sy'n angenrheidiol i gyflawni diben neu ddibenion penodol. Gallai data personol fod yn wybodaeth a gedwir ar gyfrifiadur, mewn cofnod papur hy ffeil, fel delweddau, ond gall hefyd gynnwys mathau eraill o wybodaeth a gedwir yn electronig ee delweddau TCC (CCTV).

## 4. O ble gawn ni ddata personol?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod gall BCBC gael data personol o amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys y canlynol:

- Asiantaethau gorfodi'r gyfraith;
- Cyllid a Thollau EM;
- Awdurdodau trwyddedu;
- Cynrychiolwyr cyfreithiol;
- Awdurdodau erlyn;
- Cyfreithwyr amddiffyn;
- Llysoedd;
- Carchardai;
- Cwmnïau diogelwch;
- Sefydliadau'r sector gwirfoddol;
- Sefydliadau cymeradwy a phobl sy'n gweithio gyda'r Cyngor;
- Archwilwyr;
- Llywodraeth ganolog, asiantaethau ac adrannau llywodraethol;
- Gwasanaethau brys;

- Unigolion eu hunain;
- Perthnasau, gwarcheidwaid neu bersonau eraill sy'n gysylltiedig â'r unigolyn;
- Cyflogwyr presennol yr unigolyn, rhai yn y gorffennol neu ddarpar gyflogwyr;
- Cynghorwyr neu ymarferwyr gofal iechyd, cymdeithasol a lles;
- Sefydliadau addysg, hyfforddiant a chyrff arholi;
- Cydweithwyr busnes ac ymgynghorwyr proffesiynol eraill;
- Gweithwyr ac asiantau BCBC;
- Cyflenwyr, darparwyr nwyddau neu wasanaethau;
- Personau sy'n gwneud ymholiad neu gwyn;
- Sefydliadau ac ymgynghorwyr ariannol;
- Asiantaethau cyfeirio credyd;
- Cymhwysydd Colledion
- Trinwyr hawliadau allanol
- Tystion
- Ymgynghorwyr Meddygol a Meddygon Teulu
- Sefydliadau arolygu ac ymchwil;
- Cyrff masnach, cymdeithasau cyflogwyr a chyrdd proffesiynol;
- Llywodraeth leol;
- Sefydliadau gwirfoddol ac elusennol;
- Yr Ombwdsman ac awdurdodau rheoleiddio;
- Y cyfryngau;
- Proseswyr Date yn gweithio ar ran BCBC;
- Gwasanaeth Prawf
- Canolfannau Rhannu Alm-Asiantaeth sy’n ymwneud â Diogelu’r Cyhoedd;
- Gwybodaeth sydd are gael yn agored ar y rhyngrwyd;
- Camerâu sy’n cael eu gwisgo ar y corff gan swyddogion
- Adrannau eraill o fewn y Cyngor.

Gall BCBC hefyd gael data personol o ffynonellau eraill megis ei systemau teledu cylch cyfyng ei hun, neu ohebiaeth.

## 5. Sut ydym ni'n trin data personol?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1, bydd BCBC yn trin data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Yn benodol, byddwn yn sicrhau bod data personol yn cael ei drin yn deg a chyfreithlon gyda chyfiawnhad priodol. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod unrhyw ddata personol a ddefnyddir gennym ni neu ar ein rhan o'r ansawdd uchaf o ran cywirdeb, perthnasedd, digonolrwydd a diffyg gormodedd, yn cael ei gadw mor ddiweddar â phosibl, wedi'i ddiogelu'n briodol, ac fe'i hadolygir, ei gadw a'i ddinistrio'n ddiogel pan nad oes ei angen mwyach.

## 6. Sut ydym ni'n sicrhau diogelwch data personol?

Mae BCBC yn ystyried diogelwch yr holl ddata personol dan ein rheolaeth yn ddifrifol iawn. Byddwn yn sicrhau bod polisi, hyfforddiant, mesurau technegol a gweithdrefnol priodol yn eu lle, gan gynnwys archwilio a monitro cywirdeb, i ddiogelu ein systemau gwybodaeth electronig a llaw o golli a chamddefnyddio data, a dim ond yn caniatáu

mynediad atynt pan fo rheswm dilys i wneud hynny, ac yna dan ganllawiau llym ynghylch pa ddefnydd y gellir ei wneud o unrhyw ddata personol a gynhwysir ynddynt. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cael eu rheoli a'u gwella'n barhaus er mwyn cynnwys y mesurau diogelwch diweddaraf.

## 7. I bwy ydyn ni'n datgelu data personol?

Weithiau mae angen i ni rannu gwybodaeth gyda'r unigolion yr ydym yn prosesu gwybodaeth amdanynt a sefydliadau eraill. Lle mae hyn yn angenrheidiol, mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â phob agwedd ar y ddeddfwriaeth. Yr hyn sy'n dilyn yw disgrifiad o'r mathau o sefydliadau y gallai fod angen i ni rannu rhywfaint o'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei phrosesu gyda nhw am un rheswm neu fwy:

- Cwsmeriaid
- Teulu, cydweithwyr neu gynrychiolwyr yr unigolyn yr ydym yn prosesu ei
- ddata personol
- Y cyflogwr presennol a darpar gyflogwyr
- Sefydliadau gofal iechyd, cymdeithasol a lles
- Addysgwyr a chyrff arholi
- Darparwyr nwyddau a gwasanaethau
- Sefydliadau ariannol
- Llywodraeth Cymru a llywodraeth ganolog
- Yr Ombwdsmon a gwasanaethau rheoleiddio
- Y wasg a'r cyfryngau
- Cynghorwyr ac ymgynghorwyr proffesiynol
- Llysoedd a thribiwnlysoedd
- Undebau llafur
- Sefydliadau gwleidyddol
- Asiantaethau cyfeirio credyd
- Cyrff proffesiynol
- Sefydliadau arolygu ac ymchwil
- Heddluoedd
- Cymdeithasau tai a landlordiaid
- Sefydliadau gwirfoddol ac elusennol
- Sefydliadau crefyddol
- Myfyrwyr a disgyblion gan gynnwys eu perthnasau, gwarcheidwaid, gofalwyr
- neu gynrychiolwyr
- Proseswyr data
- Cyrff rheoleiddio
- Llysoedd, carchardai
- Tollau ac ecseis
- Llywodraeth leol a chanolog
- Asiantaethau a chyrff gorfodi cyfraith ryngwladol
- Cwmnïau diogelwch
- Asiantaethau partner, sefydliadau cymeradwy ac unigolion sy'n gweithio
- gyda'r heddlu
- Awdurdodau trwyddedu
- Darparwyr gwasanaeth

- Y wasg a'r cyfryngau
- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- Cyflogwyr presennol a darpar gyflogwyr a chyrff arholi
- Awdurdodau gorfodi'r gyfraith ac erlyn
- Cynrychiolwyr cyfreithiol, cyfreithwyr amddiffyn
- Y gwasanaeth datgelu a gwahardd
- Trinwyr hawliadau allanol
- Bargyfreithwyr
- Cymhwyswyr Colled
- Broceriaid Yswiriant ac Yswirwyr
- Gweinyddwyr Pensiynau
- Darparwyr Hyfforddiant
- Archwilwyr

Gall weithiau fod yn angenrheidiol i'r Cyngor drosglwyddo gwybodaeth bersonol dramor. Pan fydd angen hyn, gellir trosglwyddo gwybodaeth i wledydd neu diriogaethau ledled y byd. Bydd unrhyw drosglwyddiadau a wneir yn cydymffurfio'n llawn â phob agwedd ar y ddeddfwriaeth.

## 8. Beth yw'ch hawliau mewn perthynas â'ch data personol a gaiff ei drin gan BCBC?

Mae gan unigolion hawliau amrywiol:

1. Yr hawl i gael gwybod
2. Yr hawl i fynediad
3. Yr hawl i gywiro
4. Yr hawl i ddileu
5. Yr hawl i gyfyngu prosesu
6. Yr hawl i gludadwyedd data
7. Yr hawl i wrthwynebu
8. Hawliau mewn perthynas â phenderfynu a phroffilio awtomataidd

<u>Yr hawl i gael gwybod</u>

Mae gennych chi hawl i gael gwybod am gasglu a defnyddio eich data personol.

Rhaid i'r Cyngor roi gwybodaeth i chi yn cynnwys: dibenion prosesu eich data personol, y cyfnodau cadw ar gyfer y data hwnnw, ac â phwy y caiff ei rannu. Gelwir hyn yn 'wybodaeth preifatrwydd'.

Mae gan unigolion wahanol hawliau:

Hawl mynediad

Gallwch gael copi, yn amodol ar eithriadau, o'ch data personol a gedwir gan y Cyngor. Mae copi o'r ffurflen gais ar gael ar ein gwefan: https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/rhyddid-gwybodaeth/diogelu-data/

Mae gennych hefyd hawl i gael cadarnhad a yw data sy'n ymwneud â chi yn cael ei brosesu gan y Cyngor ai peidio. Os yw hynny'n wir, mae gennych hawl i'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar eithriadau:

- Pwrpasau a sail gyfreithiol y prosesu
- Y categorïau o ddata personol dan sylw
- Y derbynwyr y datgelwyd y data personol iddynt
- Y cyfnod y rhagwelir y bydd y data personol yn cael ei storio
- Cyfathrebu'r data personol sy'n cael ei brosesu, ac unrhyw wybodaeth sydd ar gael o ran ei darddiad.

** Sylwch fod 'prosesu' yn golygu gweithrediad neu set o weithrediadau a gyflawnir ar ddata personol megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu, newid, dileu, cyfyngu, adfer.*

Mae'n bosibl y bydd angen Prawf Adnabod ac unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen i ddod o hyd i'r wybodaeth cyn y gall y Cyngor gydymffurfio â'ch cais.

Dylid gwneud unrhyw gais am y wybodaeth uchod yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data a bydd y Cyngor yn ymateb o fewn mis.

Cywiro data

Gallwch ofyn i'r Cyngor gywiro data personol anghywir sy'n ymwneud â chi. Os yw'r data yn anghywir oherwydd ei fod yn anghyflawn, rhaid i'r Cyngor ei gwblhau os yw'n ofynnol iddo wneud hynny gennych chi.

Dylid gwneud cais yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data a bydd ymateb yn cael ei anfon o fewn mis.

Dileu neu gyfyngu data personol

Gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu'ch data neu gyfyngu ar unrhyw brosesu ar eich data, yn amodol ar eithriadau.

Dylid gwneud pob cais i'r Swyddog Diogelu Data. Yna bydd y Cyngor yn eich hysbysu a yw'r cais wedi'i ganiatáu ac os gwrthodwyd ef, y rhesymau dros y gwrthod.

Hawl i beidio â bod yn destun gwneud penderfyniadau awtomataidd

Mae gennych yr hawl, yn amodol ar eithriadau, i beidio â bod yn ddarostyngedig i benderfyniad pan fydd yn seiliedig ar brosesu awtomataidd a'i fod yn cael effaith gyfreithiol neu effaith sy'n debyg iawn arnoch chi. Mae gennych hawl i fynegi'ch safbwynt a chael esboniad gan y Cyngor o'i benderfyniad a'i herio.

Ond dylid nodi nad yw'r hawl hwn yn berthnasol i bob penderfyniad gan fod eithriadau, er enghraifft, awdurdodiad yn ôl y gyfraith, cyflawni contract y byddwch chi'n barti iddo.

Yr hawl i gludadwyedd data

Mae'r hawl i gludadwyedd data yn caniatáu i chi gaffael a defnyddio eich data personol i'ch dibenion eich hun ar draws gwasanaethau gwahanol.

Nid yw'r hawl yn berthnasol ond i'r wybodaeth yr ydych chi wedi ei rhoi i'r Cyngor.

Yr hawl i wrthwynebu

Mae gennych chi'r hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau.

Mae gan y Cyngor un mis calendr i ymateb i wrthwynebiad.

## 9. Am ba hyd y mae BCBC yn cadw data personol?

Mae BCBC yn cadw data personol cyhyd ag y bo'n angenrheidiol at y diben neu'r dibenion penodol y mae'n cael ei gadw ar ei gyfer yn unol â Pholisi Cadw Data y Cyngor.

## 10. Y sail gyfreithlon yr ydym yn defnyddio'r wybodaeth hon arni.

Mae'n rhaid i'r Cyngor gael sail gyfreithlon ddilys er mwyn prosesu data personol. Bydd pa sail yw'r fwyaf priodol i'w defnyddio yn dibynnu ar y pwrpas a'r berthynas â'r unigolyn.

Dan y Ddeddf, y seiliau cyfreithlon dros brosesu yw:

**(a) Cydsyniad:** mae'r unigolyn wedi rhoi cydsyniad clir i chi brosesu ei ddata personol i ddiben penodol.

**(b) Contract:** mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer contract sydd gennych â'r unigolyn, neu oherwydd ei fod wedi gofyn i chi gymryd camau penodol cyn gwneud contract.

**(c) Rhwymedigaeth gyfreithiol:** mae'r prosesu'n angenrheidiol i chi gydymffurfio â'r gyfraith (heb gynnwys rhwymedigaethau contract).

**(d) Buddiannau allweddol i fywyd:** mae'r prosesu'n angenrheidiol i amddiffyn bywyd rhywun.

**(e) Gorchwyl gyhoeddus:** mae'r prosesu'n angenrheidiol i chi gyflawni gorchwyl er budd y cyhoedd neu ar gyfer eich swyddogaethau swyddogol, ac mae gan yr orchwyl neu'r swyddogaeth sail glir mewn cyfraith.

**(f) Buddiannau dilys:** mae'r prosesu'n angenrheidiol i'ch buddiannau dilys chi neu fuddiannau dilys trydydd parti, os nad oes rheswm da dros amddiffyn data personol yr unigolyn sy'n drech na'r buddiannau dilys hynny. (Ni all hyn fod yn berthnasol os ydych yn awdurdod cyhoeddus sy'n prosesu data i gyflawni eich gorchwylion swyddogol).

## 11. Cysylltwch â Ni

Gall unrhyw unigolyn sydd â phryderon ynghylch y ffordd y mae BCBC yn trin eu data personol gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn y Cyngor fel a ganlyn:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfa Wybodaeth, Swyddfeydd Dinesig, Angel Street, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.
E- bostiwch foi@bridgend.gov.uk
Ffôn 01656 643565

Gallwch fynegi pryderon wrth y Comisiynydd Gwybodaeth hefyd. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru
2il Lawr
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH
Ffôn: 02920 678400 Ffacs: 02920 678399
E-bost: wales@ico.org.uk
Gwefan: https://ico.org.uk/

Mae'r ddogfen hon yn Hysbysiad Prosesu Teg cyffredinol a gynlluniwyd i helpu i fodloni'r gofynion prosesu teg o dan y Ddeddf. Gallai hysbysiadau prosesu teg mwy penodol ymddangos mewn amgylchiadau eraill megis ar ffurflenni, polisïau, troednodiadau e-bost, neu arwyddion TCC (CCTV), neu o fewn adrannau eraill.